Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

Gofyniad preswylio ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/837-12

Rhif y ddeiseb: P-06-1185

Teitl y ddeiseb: Dylai cyfnod preswylio 3 blynedd o leiaf fod yn ofynnol i bob ymgeisydd yn etholiadau'r Senedd

Geiriad y ddeiseb:

Cafwyd sawl achos proffil uchel pan fo pobl wedi bod yn ymgeiswyr i'r Senedd, neu wedi cael eu hethol iddi, er nad oeddent erioed wedi byw yng Nghymru.

Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i Aelodau etholedig o'r Senedd fod wedi byw yng Nghymru ers o leiaf 3 blynedd cyn ymgeisio, er mwyni sicrhau eu bod yn deall y cymunedau y maent am eu cynrychioli.

Credwn fod parasiwtio ymgeiswyr i'r Senedd o'r tu allan i Gymru yn tanseilio gwleidyddiaeth Cymru o ran ansawdd ac uniondeb, a rhaid i hyn gael ei atal.

1. Ymgeiswyr yn Etholiad y Senedd 2021

Mae'r deisebd yn cyfeirio at '*sawl achos proffil uchel pan fo pobl wedi bod yn ymgeiswyr i'r Senedd, neu wedi cael eu hethol iddi, er nad oeddent erioed wedi byw yng Nghymru*'.

Adroddwyd bod o leiaf 23 o'r ymgeiswyr yn etholiad y Senedd ym mis Mai 2021 yn preswylio y tu allan i Gymru. Yn ystod y Bumed Senedd, adroddwyd nad oedd ond un Aelod o'r Senedd yn 'cyfaddef' ei fod yn byw y tu allan i Gymru.

Mae 'parasiwtio' yn derm sy'n disgrifio'r arfer o gynnig ymgeiswyr gwleidyddol nad oes ganddynt gysylltiad o reidrwydd a'r etholaethau neu ranbarthau y byddant yn sefyll ynddynt.

2. Dim gofyniad preswylio i ymgeiswyr

I ymgeisio yn etholiadau'r Senedd, rhaid i berson:

- fod o leiaf 18 mlwydd oed,
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig; a
- pheidio â bod yn anghymwys ar sail swydd, methdaliad neu garchariad.

Nid oes dim gofyniad o dan y gyfraith i ymgeisydd fod yn breswylydd nac yn etholwr cofrestredig yng Nghymru.

3. Cymhwysedd i weithredu gofyniad preswylio

Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â rhai elfennau o etholiadau datganoledig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017).

Nid yw gofynion sefydlog ynghylch ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd yn fater pendol a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.